Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Chwefror 2016

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 3C Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 Deddf Cymru 2014.

ISBN digidol 978 1 4734 5994 6
© Hawlfraint y Goron 2016
WG28180

# Cynnwys

Cyflwyniad

Cwmpas yr adroddiad

Cynigion sydd wedi’u gweithredu

Cynigion nad ydynt wedi’u gweithredu hyd yma

Penderfyniadau a gymerwyd i beidio gweithredu

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf i'w gyflwyno yn dilyn pasio Deddf Cymru 2014.

Mae Deddf Cymru 2014, a ddaeth i rym ar 17 Chwefror 2015, yn diwygio Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n gysylltiedig â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru wedi'u gweithredu gan Weinidogion Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod o 17 Chwefror 2015 i 16 Chwefror 2016.

Mae Deddf Cymru 2014 hefyd yn darparu'r sail statudol ar gyfer y protocol rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith. Cytunwyd ar y protocol hwn ym mis Gorffennaf 2015 ac mae'n cyflwyno sut y dylai Gweinidogion Cymru a Chomisiwn y Gyfraith gydweithio ar brosiectau diwygio'r gyfraith.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddeddfwriaethau Cymru sy'n gyson â'r rheol gyfreithiol, sy'n effeithiol ac yn hygyrch i'r dinesydd cyffredin. Mae gwaith Comisiwn y Gyfraith yn elfen hollbwysig o'r ymdrech hon, ac rwy'n falch iawn bod Deddf Cymru 2014 a'r protocol yn rhoi hyn ar sail statudol.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu gwaith rhagorol Comisiwn y Gyfraith. Am y tro cyntaf yn hanes Comisiwn y Gyfraith, mae'r Ddeuddegfed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud yn unig â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru. Yr wyf yn edrych ymlaen at ganlyniad yr adolygiad o gyfreithiau cynllunio yng Nghymru, yn ogystal â'r prosiect ymgynghorol ar ffurf a hygyrchedd cyfreithiau sy'n berthnasol yng Nghymru. Credaf y bydd y prosiectau hyn yn arwain y gwaith o weithredu cynigion pellach Comisiwn y Gyfraith yn y blynyddoedd i ddod.

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

**16 Chwefror 2016**

## Cwmpas yr adroddiad

1. Mae Adran 3C Deddf Comisiynau'r Gyfraith1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 Deddf Cymru 2014, yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ar y graddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

2. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 17 Chwefror 2015 i 16 Chwefror 2016.

3. Fel y nodir yn y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig, sydd wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, cynigion sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru nad ydynt wedi'u gweithredu, yn cynnwys cynlluniau i weithredu a phenderfyniadau a gymerwyd i beidio gweithredu cynigion.

4. Mae'r adroddiad ond yn cwmpasu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, i'r graddau y maent yn berthnasol i faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru.

## Cynigion sydd wedi'u gweithredu

### Diwygio'r Sector Tai Rhent

5. Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn seiliedig ar Fil drafft a ddarparwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar ôl iddynt gwblhau eu prosiect i ddiwygio'r sector tai rhent. Derbyniodd Comisiwn y Gyfraith gais gan Lywodraeth Cymru i adolygu a diweddaru ei argymhellion i ddiwygio cyfreithiau tai, o ganlyniad i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno, yn ystod oes y Cynulliad presennol, bil tai a oedd wedi'i fodelu'n agos ar gynigion Comisiwn y Gyfraith. Ar 9 Ebrill 2013, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith eu Hadroddiad ar Rentu Cartrefi yng Nghymru.

6. Cyflwynwyd y Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) i'r Cynulliad ar 9 Chwefror 2015, a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016.

7. Y Ddeddf hon yw un o ddarnau o ddeddfwriaeth fwyaf arwyddocaol y Cynulliad hwn, a bydd yn helpu dros un filiwn o bobl yng Nghymru sy'n rhentu eu cartrefi. Mae'r Ddeddf yn gwella a symleiddio'r trefniadau ar gyfer rhentu cartrefi drwy ddisodli nifer o'r darnau gwahanol a chymhleth o ddeddfwriaeth gydag un ddeddfwriaeth. Mae hefyd yn disodli'r nifer fawr o wahanol fathau o denantiaethau a thrwyddedau gyda dim ond dau fath o gontract - un ar gyfer y sector rhentu preifat ac un ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol.

### Gofal Cymdeithasol Oedolion

8. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gweithredu'r mwyafrif o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2011 ar Ofal Cymdeithasol Oedolion. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2014 a bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016.

### Rheoleiddio Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol

9. Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ei llywio gan adroddiad 2014 a bil drafft Comisiwn y Gyfraith ar reoleiddio gweithwyr iechyd yn y DU a gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn darparu tystiolaeth bwysig a chanllawiau ar gyfer datblygu rheoleiddio'r gweithlu yn y Ddeddf, sy'n gwella ansawdd y gofal a'r cymorth yng Nghymru ac yn atgyfnerthu diogelwch i ddinasyddion.

10. Cyflwynwyd y Bil ar 23 Chwefror 2015 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016.

11. Mae'r Ddeddf yn diwygio'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymorth, ac mae'n sefydlu gofynion ar gyfer awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru i gynnal asesiadau o sefydlogrwydd y sector yn y dyfodol. Mae'n diwygio'r gyfundrefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, ac mae'n ailffurfio ac yn ailenwi Cyngor Gofal Cymdeithasol yn Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn ehangu ei gylch gwaith. Mae'r Ddeddf hefyd yn diffinio'r broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol.

**Rheolaeth amgylcheddol dros anifeiliaid a rhywogaethau planhigion**

12. Yn Chwefror 2014, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad, 'Wildlife Law: Control of Invasive Non-native Species' (fel rhan o'i adolygiad o gyfreithiau bywyd gwyllt). Cafodd yr elfen benodol hon o brosiect cyffredinol ar gyfreithiau Bywyd Gwyllt ei datblygu ymhellach ar gais Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru, er mwyn rhoi ystyriaeth gynharach i gyflwyno deddfwriaeth ar y mater.

13. Mae Rhan IV Deddf Seilwaith (DU) 2015 yn darparu ar gyfer Cytundebau Rheoli Rhywogaethau a Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol o anifeiliaid neu blanhigion, a chafodd ei llywio gan adroddiad 2014 Comisiwn y Gyfraith. Dechreuodd Rhan IV y Ddeddf ar 12 Ebrill 2015 mewn cysylltiad â Chymru.

## Cynigion nad ydynt wedi'u gweithredu hyd yma

### Cyfraith Bywyd Gwyllt

14. Cynigiwyd prosiect cyfraith bywyd gwyllt gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU i'w gynnwys yn Unfed Raglen ar Ddeg Comisiwn y Gyfraith o Ddiwygio'r Gyfraith. Mae'r prosiect yn cynnwys ystyried y gyfraith sy'n ymwneud â chadwraeth, rheoli, diogelu ac ecsbloetiaeth bywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr. Y cylch gorchwyl oedd: *Adolygu'r gyfraith ar warchod, rheoli, defnyddio a lles bywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr, a gwneud argymhellion i'w symleiddio a'i moderneiddio.*

15. Roedd y prosiect yn ymwneud â fframwaith y gyfraith, yn hytrach na newidiadau i'r polisi presennol. Felly, gofynnwyd i Gomisiwn y Gyfraith lunio cynigion nad oes angen iddynt wyro oddi wrth y polisi presennol, ac eithrio pan fydd angen hynny i wella cydymffurfiaeth â Chyfarwyddebau Ewropeaidd (Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar)

16. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol a'i Fil drafft ar gynigion i ddiwygio cyfreithiau bywyd gwyllt yng Nghymru a Lloegr ym mis Tachwedd 2015. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 287 o argymhellion, nifer ohonynt o natur dechnegol a chymhleth.

17. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried cynigion Comisiwn y Gyfraith yn awr.

### Prosiectau Presennol Comisiwn y Gyfraith

18. Mae nifer o brosiectau Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion sydd wedi'u datganoli i Gymru yn cael eu cynnal yn awr fel rhan o'r Ddeuddegfed Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith. Mae un prosiect, sy'n ymwneud â Chyfraith Etholiadol, yn cwmpasu'r DU gyfan ac mae'n brosiect teiran sy'n cael ei chynnal ar y cyd gyda Chomisiwn y Gyfraith yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon.

19. Felly, bydd y cynigion a wneir yn y prosiectau hyn yn destun adroddiadau yn y dyfodol ac fe'u nodir isod er gwybodaeth.

### Rheoli cynllunio a datblygiadau yng Nghymru

20. Mae'r prosiect hwn yn adolygu'r gyfraith ar gynllunio gwlad a thref yng Nghymru, a bydd yn gwneud argymhellion i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith, gan ystyried y rhaglen bresennol o ddiwygiadau drwy Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Er bod y cylch gorchwyl yn eang, ffocws gwreiddiol y prosiect oedd rheoli datblygiadau a pherthynas hyn gyda'r system cynlluniau datblygu.

21. Er mwyn hysbysu'r prosiect, cynhaliodd y Comisiwn archwiliad beirniadol o'r ffordd y mae'r broses rheoli datblygiadau yn gweithredu yn y gyfraith ac yn ymarferol, ac archwilio'r posibilrwydd o atgyfnerthu'r cyswllt rhwng rheoli datblygiadau a llunio cynlluniau.

22. Wrth gynnal yr ymarferiad hwn, ni wnaeth y Comisiwn ganfod unrhyw wendidau sylfaenol yn y system rheoli datblygiadau nac angen brys am ddiwygiadau sylweddol. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod angen proses ehangach o symleiddio'r gyfraith. Yn benodol, fe ddangosodd yr adolygiad bod y gyfraith yn ddiangen o gymhleth ac, mewn mannau, yn anodd ei deall.

23. O ganlyniad, cafodd y prosiect ei ailstrwythuro i ganolbwyntio ar ddarparu deddfwriaeth gynllunio sydd wedi'i hatgyfnerthu a'i symleiddio. Bydd yn darparu argymhellion ar dermau deddfwriaeth gynllunio yng Nghymru sydd wedi'i symleiddio a'i hatgyfnerthu, er mwyn disodli ac integreiddio deddfwriaeth bresennol i Ddeddf neu Ddeddfau cynllunio newydd i Gymru.

24. Bydd Comisiwn y Gyfraith yn cyhoeddi papur cwmpasu yn ystod gwanwyn 2016, a fydd yn ceisio sefydlu graddau'r diwygiadau sydd eu hangen i'r deddfwriaethau cynllunio o safbwynt symleiddio ac atgyfnerthu. Bydd papur ymgynghori mwy manwl yn dilyn hyn.

**Ffurf a Hygyrchedd y gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru: prosiect ymgynghorol**

25. Mae'r prosiect hwn yn ystyried y trefniadau presennol ar gyfer ffurf, cyflwyniad a hygyrchedd y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru, a bydd yn gwneud argymhellion i sicrhau gwelliannau i'r agweddau hynny o'r gyfraith bresennol a deddfwriaethau yn y dyfodol.

26. Cyhoeddwyd papur ymgynghori ym mis Gorffennaf 2015, a oedd yn ystyried nifer o faterion yn cynnwys atgyfnerthu, cyfundrefnu, systemau effeithiol ar gyfer creu cyfreithiau, prosesau i alluogi llunwyr polisi a chyfreithiau i gymryd golwg mwy ystyriol o'r iaith Gymraeg yn y broses o greu cyfreithiau a sicrhau bod deddfwriaethau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

27. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2015 a disgwylir i'r adroddiad, a fydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, gael ei gyhoeddi yn ystod gwanwyn 2016.

**Cyfraith Etholiadol**

28. Mae Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn adolygu cyfraith etholiadol yn awr a byddant yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau. Nodau'r prosiect yw atgyfnerthu ffynonellau niferus presennol cyfraith etholiadol, a moderneiddio a

symleiddio’r gyfraith, a’i gwneud yn fwy addas ar gyfer etholiadau yn yr 21ain ganrif.

29. Disgwylir i’r adroddiad terfynol a’r Bil gael eu cyhoeddi ar ddechrau 2017. O dan gynigion a gyhoeddir gan Lywodraeth y DU yn y fersiwn drafft o Fil Cymru, byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sicrhau cymhwysedd deddfwriaethol yn ystod 2017 o ran etholiadau’r Cynulliad a llywodraeth leol Cymru. Ar y rhagdybiaeth y bydd hyn yn digwydd, yna Llywodraeth Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol fyddai’n ystyried hyn, a phe byddai’n briodol gweithredu mewn deddfwriaeth, argymhellion yr adroddiadau am eu bod yn berthnasol i etholiadau’r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru.

## Galluedd Meddyliol a Cholli Rhyddid

30. Mae Adran Iechyd Llywodraeth y DU wedi noddi prosiect Comisiwn y Gyfraith ar y gyfraith galluedd meddyliol a cholli rhyddid. Mae’r prosiect yn ymwneud â chyfraith galluedd meddyliol yng Nghymru a Lloegr a Gweinidogion Cymru sy’n gyfrifol am lunio’r rheoliadau ar gyfer Cymru o dan y Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid. Mae cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer iechyd meddwl wedi’i ddatganoli i Gymru hefyd.

31. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith bapur ymgynghori ar 7 Gorffennaf 2015 sydd wedi dod i ben yn awr. Disgwylir adroddiad terfynol, a fydd yn cynnwys argymhellion a Bil drafft yn 2016.

## Penderfyniadau a gymerwyd i beidio gweithredu

32. Nid oes unrhyw gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith sy’n ymwneud â materion sydd wedi’u datganoli i Gymru y mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio eu gweithredu.